Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Pontnewydd**

**40 Station Road**
**Pontnewydd**
**Cwmbrân**
**NP44 1NZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

25/07/2023

## Meithrinfa Pontnewydd

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Pontnewydd Child Care Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 86 |
| Iaith y gwasanaeth | Saesneg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Mawrth 2023 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

## Crynodeb

Arolygiad â ffocws penodol oedd hwn ac, ar yr achlysur hwn, nid ydym wedi ystyried pob thema yn llawn.

Mae'r plant wedi setlo ac maent yn hapus yn y lleoliad hwn. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgareddau. Mae'r plant yn meithrin eu sgiliau annibyniaeth drwy brofiadau chwarae a dysgu addas.

Ar y cyfan, mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn rhoi arferion, polisïau a gweithdrefnau addas ar waith. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal.

Mae'r safle yn ddiogel ac mae mesurau a gweithdrefnau ar waith i gadw'r plant yn ddiogel. Mae asesiadau risg ar waith, ac mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol a ddefnyddir i nodi risgiau diangen i'r plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn gwella, ac mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i ddatblygu'r lleoliad, er mwyn gwella'r canlyniadau i'r plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi mynd i'r afael â'r achos o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Maent yn gwneud cynnydd tuag at fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella a'r argymhellion. Caiff y rhain eu profi'n llawn yn yr arolygiad nesaf.

## Llesiant

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r plant yn gwneud rhai penderfyniadau am sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Wrth iddynt gyrraedd, maent yn mynd yn syth i chwarae yn un o'r ardaloedd dysgu sydd ar gael. Maent yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt ac yn eu symud i'w dewis ardal.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y gwasanaeth. Maent yn siarad â'r staff yn ddigymell i geisio tawelwch meddwl neu gymorth. Er enghraifft, aeth un o'r plant at y staff i ofyn am help pan oedd ei esgid wedi dod oddi arno. Mae llawer o'r plant yn gwahanu'n hawdd oddi wrth eu rhieni ac yn setlo'n dda yn eu grwpiau, ac mae ganddynt gydberthnasau agos â'r staff a'r plant sy'n gyfarwydd iddynt.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a gyda'r rheini sy'n gofalu amdanynt. Maent yn yn gwneud ffrindiau yn unol â'u hoedran a'u cam datblygu. Ar y cyfan, maent yn chwarae'n hapus â'i gilydd neu ochr yn ochr â'i gilydd. Maent yn dysgu sut i gydweithredu ac ymgysylltu â'i gilydd wrth chwarae. Er enghraifft, gwelsom grŵp o blant ifanc yn golchi ceir a doliau, gan ymwneud yn briodol â'i gilydd a gyda'r oedolyn a oedd yn eu cefnogi. Anogir y plant i fod yn garedig ac ystyriol tuag at eu cyfoedion. Maent yn dysgu sut i gymryd eu tro a rhannu yn ystod y gweithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hapus wrth chwarae a dysgu. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn gyffredinol. Mae mwyafrif y plant yn canolbwyntio'n dda, gan gynnal diddordeb yn y gweithgareddau y maent wedi dewis eu gwneud am gyfnodau estynedig, yn enwedig gyda chymorth oedolyn. Er enghraifft, gwelsom un plentyn hŷn yn chwarae rôl yn y gegin chwarae am gyfnod estynedig.

Mae'r plant yn datblygu eu hyder a'u hannibyniaeth drwy'r cyfleoedd sy'n cael eu darparu. Maent yn symud yn annibynnol rhwng y gweithgareddau a ddarperir dan do ac yn defnyddio'r ardal awyr agored yn ystod amseroedd penodol wedi'u goruchwylio.

## Gofal a Datblygiad

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r rhan fwyaf o'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'r staff yn ymwybodol o'r polisi diogelu a'u dyletswydd i roi gwybod am unrhyw achosion i'r swyddog diogelu dynodedig. Fodd bynnag, pan ofynnwyd iddynt am eu cyfrifoldeb unigol i roi gwybod am achosion, ni allai pob aelod o'r staff ateb yn hyderus. Mae hyn yn faes i'w wella ar gyfer y lleoliad o hyd, a chaiff ei adolygu yn ystod yr arolygiad nesaf. Mae'r staff yn dilyn polisïau'r lleoliad ar gyfer cofnodi damweiniau, salwch a digwyddiadau o bwys. Mae'r staff yn sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel. Maent yn cadw cofnodion o gydsyniad a meddyginiaeth a roddwyd, ac yn sicrhau y caiff y rhain eu llofnodi gan y staff a'r rhieni. Mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â defnyddio a storio meddyginiaeth bellach wedi'i gau.

Mae'r staff yn trin y plant gydag urddas a pharch. Maent yn sensitif i anghenion y plant, gan ddarparu gofal a chynhesrwydd. Maent yn cofleidio'r plant pan fydd angen er mwyn rhoi cysur a thawelwch meddwl. Mae'r staff yn deall mai nod y polisi rheoli ymddygiad yw hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Gall llawer o'r staff reoli'r plant yn fedrus wrth ymgymryd â gweithgareddau grŵp. Fodd bynnag, yn ystod cyfnodau trosglwyddo, mae'r plant yn gorfod aros am y gweithgaredd nesaf. Weithiau, mae hyn yn achosi i'r plant fynd yn aflonydd ac yn arwain at golli amser chwarae a dysgu.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad fesurau boddhaol ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y plant. Maent yn cwblhau asesiadau risg ar gyfer yr ardaloedd dan do a'r ardaloedd awyr agored, ac yn adolygu'r rhain yn rheolaidd. Mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol a ddefnyddir gan y staff i nodi risgiau diangen i'r plant a'u dileu cymaint â phosibl. Mae'r staff yn sicrhau bod deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel y tu hwnt i gyrraedd y plant a bod caead ar bob bin. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi dileu'r peryglon eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â'r amgylchedd. Er nad yw'n rhestr gynhwysfawr, mae'r rhain yn cynnwys dileu peryglon o'r ardaloedd cysgu, prynu seddi car newydd ac adolygu'r trefniadau teithio. Mae'r hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf mewn perthynas â'r risgiau amgylcheddol, y peryglon a'r mesurau diogelwch bellach wedi'i gau. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthi'n adolygu'r amgylchedd er budd cyfnodau trosglwyddo a phrofiad y plant sy'n mynychu'r lleoliad. Mae hyn yn cynnwys ystyried cynllun y llawr gwaelod, llwybrau trwodd, ardaloedd dynodedig y staff a chyfleusterau storio. Fodd bynnag, nid ydynt wedi adolygu'r cyfrifiad o'r gofod sydd ei angen fesul plentyn.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnod o'r ymwelwyr a'r staff sy'n gweithio yn y lleoliad. Mae'n ofynnol i'r staff hefyd lofnodi wrth gyrraedd a gadael yr adeilad ac ystafelloedd unigol, ac ar ddechrau a diwedd egwyliau.  Fodd bynnag, ni chaiff y cofnodion hyn eu cwblhau bob amser. O ganlyniad, nid yw'r cofnod o'r rhai sy'n gofalu am y plant bob amser ar gael. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae gwelliannau wedi'u gwneud i arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymrwymedig i wella ac maent wedi mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn yr hysbysiadau gweithredu â blaenoriaeth a gyhoeddwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf. Maent yn cadw cofnodion mewn perthynas â digwyddiadau o bwys. Roedd y system ar gyfer cofnodi meddyginiaeth, damweiniau, digwyddiadau ac anafiadau sy'n bodoli eisoes yn gywir yn faes i'w wella ar gyfer y lleoliad. Mae'r cofnodion hyn bellach yn fanwl ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion mewn perthynas â phresenoldeb y plant a'r staff yn cael eu cwblhau'n gyson. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Yn ystod yr ymweliad arolygu, gwelsom gofnodion mewn perthynas â chwynion a gafwyd ac ymchwiliadau a gynhaliwyd. Fodd bynnag, nid yw'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad bob amser wedi hysbysu'r achwynwyr yn ysgrifenedig am ganlyniad yr ymchwiliad.

Ers yr arolygiad diwethaf ym mis Mawrth 2023, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi adolygu rhai o'r polisïau a'r gweithdrefnau. Mae'r rhain yn cynnwys polisïau yn ymwneud â meddyginiaeth, salwch a gwahardd. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad hefyd wedi adolygu'r polisïau a'r gweithdrefnau gorffwys a chysgu, a chaiff cofnodion o wiriadau cysgu bellach eu cadw. Fodd bynnag, nid yw'r polisïau disgyblu a diogelu yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol. Mae'r rhain yn parhau i fod yn feysydd i'w gwella, a chânt eu hystyried yn llawn yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 25 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau nad yw'r amgylchedd yn cynnwys risgiau y gellir eu hosgoi. Rhaid iddo sicrhau bod yr asesiadau risg a'r gwiriadau diogelwch dyddiol yn effeithiol wrth nodi'r risgiau i'r plant. | Cyflawnwyd |
| 26 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel, y caiff gweithdrefnau eu dilyn ac y caiff cofnodion ysgrifenedig cywir eu cadw. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 31 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff pob hysbysiad perthnasol ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru yn unol â'r terfynau amser gofynnol. | Adolygwyd |
| 29 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod gweithdrefn ddisgyblu'r lleoliad yn nodi os bydd cyflogai yn methu â rhoi gwybod i berson priodol am achos o gam-drin plentyn perthnasol, neu amheuon am achos o gam-drin plentyn perthnasol, y gallai arwain at gamau disgyblu. | Adolygwyd |
| 22 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod y polisïau a'r gweithdrefnau yn addas at y diben a bod pob arweinydd a phob aelod o'r staff yn hyderus yn eu rhoi ar waith, er mwyn sicrhau y caiff y plant eu diogelu. | Adolygwyd |
| 30 | Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau y caiff cofrestrau dyddiol cywir ar gyfer y plant a'r staff eu cwblhau ar gyfer pob ystafell. Rhaid i'r Unigolyn Cyfrifol sicrhau bod pob aelod o'r staff, drwy gydol pob dydd, yn gwybod pa staff a phlant sydd ar y safle ac ym mha ystafell ar unrhyw adeg. | Heb Gyflawni |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 - Yr amgylchedd | Adolygu'r cyfleusterau storio a'r gofod llawr ar gyfer y plant, a sicrhau y caiff mynediad i'r ardaloedd cegin ei gyfyngu. |
| Safon 19 - Cwynion | Sicrhau y caiff achwynwyr eu hysbysu'n ysgrifenedig am ganlyniad yr ymchwiliad. |
| Safon 10 - Gofal Iechyd | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn rhoi'r polisi gofal iechyd, salwch a gwahardd ar waith. |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod arsylwadau yn llywio'r gwaith cynllunio ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad sgiliau'r plant. |
| Safon 14 - Trefniadaeth | Adolygu'r cynllun gweithredol i sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar hyn o bryd yn gywir a'i fod yn cynnwys cynlluniau ar gyfer gwella. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Gwella'r cyfnodau trosglwyddo rhwng gweithgareddau. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 11/09/2023